Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Bronllwyn
# Heol Colwyn
# Gelli
# Rhondda Cynon Taf
# CF41 7NW

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 23/08/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Bronllwyn.  Mae'n cwrdd mewn adeilad hunangynhaliol ym mhentref Gelli, yn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf.  Mae'r lleoliad yn darparu addysg am bum niwrnond yr wythnos rhwng 9.15 y bore a 3.15 y prynhawn yn ystod tymhorau'r ysgol.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 24 plentyn ar unrhyw adeg benodol ac yn derbyn plant rhwng dwy a phedair blwydd oed.  Ar hyn o bryd, mae bron pob un o'r plant tair blwydd oed yn cael eu hariannu ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar.  Mae bron pob un o'r plant yn dod o gefndir gwyn Prydeinig ac ychydig iawn ohonynt sy'n siarad Cymraeg fel eu mamiaith.  Ar hyn o bryd, nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r lleoliad yn cyflogi saith ymarferydd cymwysedig gan gynnwys yr arweinydd a'r rheolwraig.  Dechreuodd yr arweinydd yn ei swydd ym mis Medi 2007.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf ym mis Ionawr 2018.  Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o'r plant yn cyflawni'n gyson a chadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)
- bron pob un o'r plant yn dangos cymhelliant a diddordeb ardderchog yn eu dysgu a'u parodrwydd i weithio
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn arbennig ac o'r safon uchaf
- ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu trefnus a deallus i herio'r plant yn bwrpasol
- addysgu rhagorol yr ymarferwyr yn feistrolgar ac mae'n effeithio ar les y plant yn eithriadol o lwyddiannus
- y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn effeithiol
- gofal diwyd a synhwyrol yr ymarferwyr yn creu awyrgylch hapus, difyr a gweithgar
- amgylchedd dysgu ysgogol, yn yr adeilad a thu allan, yn ennyn diddordeb y plant yn fwriadus

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y rheolwraig a'r arweinydd yn gosod cyfeiriad cadarn a chlir i waith y lleoliad
- gweithdrefnau hunanarfarnu rheolaidd yn arwain at osod targedau defnyddiol a phriodol
- ymarferwyr yn awyddus i ddatblygu'n broffesiynol a mynychu hyfforddiant pwrpasol gan asiantaethau allanol
- defnydd cydwybodol o wasanaethau cymorth fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn cefnogi'r ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth yn llwyddiannus
- gan y lleoliad bartneriaethau buddiol gyda'r rhieni a gofalwyr, y gymuned a'r ysgol leol
- defnydd synhwyrol a bwriadus o'r cyllid yn sicrhau bod gwelliannau yn y ddarpariaeth yn effeithio ar ddeilliannau'r plant yn gadarnhaol iawn

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod arferion monitro a gwerthuso’r pwyllgor rheoli yn drylwyr a rheolaidd

A2 Creu cyswllt cadarn rhwng deilliannau’r hunanarfarnu a thargedau’r cynllun datblygu

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio’r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da yn eu medrau o'u mannau cychwyn sy'n is neu'n debyg i'r cyfartaledd disgwyliedig. Maent yn cyflawni'n gyson dros amser yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh.

Mae llawer o'r plant yn deall ac yn ymateb i batrymau iaith ac ymadroddion yn effeithiol, gydag anogaeth oedolion, mewn chwarae anffurfiol, wrth ganu yn ystod sesiynau torfol ac wrth drafod llythrennau yn eu henwau. Er enghraifft, maent yn trafod hoff lysiau a ffrwythau'r bochdew wrth osod mefus yn ei gawell. Yn ogystal, maent yn ystyried y gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng anifeiliaid Affrica ac anifeiliaid yr Arctig yn hyderus. Mae ychydig ohonynt yn ceisio creu brawddegau syml, wrth adeiladu ar eu hymwybyddiaeth o batrymau iaith penodol, wrth weddïo a gofyn yn gwrtais am ddiod a byrbryd o amgylch y byrddau bwyta.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau eu cynnwys. Maent yn trafod cymeriadau a digwyddiadau yn hyderus gydag oedolion a chyfoedion ac yn trin llyfrau fel darllenwyr naturiol. Mae rhan fwyaf o'r plant yn eistedd yn dawel ac yn dilyn storïau a ddarllenir iddynt yn ddeallus. O ganlyniad, maent yn rhannu storïau gyda'i gilydd ac yn ymateb â diddordeb i gynnwys stori ac esbonio sut mae cymeriadau fel y tylwyth teg yn hedfan.

Mae llawer o'r plant yn gwneud marciau'n bwrpasol. Maent yn mwynhau profiadau ysgrifennu cynnar ac yn defnyddio cyfryngau amrywiol yn dda. Maent yn arbrofi gyda phaent, sialc, creonau a'u bysedd mewn ewyn eillio i greu patrymau a llythrennau'r wyddor sydd dan sylw yn ystod tasgau ffocws. O ganlyniad, mae mwyafrif y plant yn adnabod eu henwau eu hunain yn gywir ac yn dechrau ffurfio llythrennau'r wyddor a rhifau dan arweiniad ymarferwr. Mae llawer o'r plant yn esbonio diben ysgrifennu yn y cyd-destunau cywir, er enghraifft wrth wneud marciau ar bapur i gofnodi archeb yn y siop a manylion perchnogion anifeiliaid ym meddygfa'r milfeddyg.

Mae llawer o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol yn effeithiol ac mewn cyd-destunau cywir. Maent yn cyfrif, yn adnabod ac yn enwi rhifau hyd at bump yn hyderus. Mae ychydig o'r plant yn cyfrif tu hwnt i ddeg yn ddeallus, wrth drefnu gwrthrychau ar fainc yr adeiladwr, ceir yn y garej a chodi gwahanol ffrwythau gyda gefeiliau i'w didoli yn ôl math a maint.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau mathemategol yn llwyddiannus. Maent yn llenwi bwcedi yn frwd o'r twb tywod ac yn trafod 'gwag', 'hanner llawn' a 'llawn' yn gywir. Yn ogystal, maent yn cydweithio'n ddiwyd wrth baratoi teisen yn y gegin fwd a chreu alawon gwreiddiol wrth daro teclynnau coginio yn yr ardal allanol.

Mae mwyafrif o'r plant yn deall y gwahaniaeth rhwng symud lan, i lawr ac o amgylch cyfarpar, fel trawstiau cydbwyso a cherrig camu. Yn ogystal, maent yn grwpio

mathau gwahanol o wrthrychau yn ôl maint, siâp a lliw yn gywir, yn enwedig wrth adeiladu tyrrau gyda briciau yn yr ardal adeiladu. Mae llawer o'r plant yn cymharu siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn yn gywir. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys esbonio bod cylch a sgwâr yn fflat ar bapur ond yn grwn fel pêl ac yn giwb wrth ddisgrifio sffêr a dîs yn y drefn honno.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn dechrau defnyddio technoleg yn effeithiol wrth ddefnyddio llechi electronig a thrwy dasgau sy'n cynnwys teganau electronig, camerâu a gliniadur. Yn ogystal, maent yn defnyddio meddalwedd addysgol ac apiau i ddatblygu eu medrau TGCh a'u medrau echddygol manwl yn bwrpasol.

Mae rhan fwyaf o'r plant yn datblygu medrau meddwl a chreadigol effeithiol trwy weithgareddau diddorol, a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau y maent yn eu cyflawni. Er enghraifft, maent yn cyfatebu anifeiliaid i'w hepil yn llwyddiannus ac yn chwarae bingo gyda rhifau'n frwdfrydig a chywir.

Mae bron pob un o'r plant yn hoffi gwrando ar gerddoriaeth ac maent yn ymateb yn frwdfrydig i hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd yn y Gymraeg. Mae rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio'u medrau corfforol yn effeithiol, er enghraifft wrth iddynt yrru beiciau a cherbydau, taflu a dal peli yn hyderus a dawnsio'n fywiog.

## Lles: Rhagorol

Mae bron pob un o'r plant yn uniaethu'n ardderchog ag oedolion ac ymwelwyr wrth iddynt gyrraedd a gadael y lleoliad ac yn ystod eu hamser yno. Maent yn dangos cymhelliant a dyfalbarhad gwydn yn eu dysgu, ac mae bron pob un ohonynt yn canolbwyntio'n ddiwyd a chydwybodol yn ystod tasgau. Maent yn wrandawyr a dysgwyr awyddus iawn ac yn ymateb yn feistrolgar i her a chefnogaeth yr ymarferwyr wrth iddynt eu haddysgu.

Mae'r bron pob un o'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau ysgogol ym mhob maes dysgu ac maent yn rhannu ac yn cydweithio'n rhagorol gyda phlant eraill. Maent yn dangos agweddau, sydd ymhell uwchlaw'r disgwyliadau, tuag at brofiadau newydd a heriol, er enghraifft wrth iddynt greu lluniau i adlewyrchu eu gwaith ymchwiliol gyda phenbyliaid a brogaod.

Mae bron pob un o'r plant yn ddysgwyr hyderus ac maent yn gweithio'n gwbl annibynnol yn ystod gweithgareddau chwarae i ddatrys yr heriau a osodwyd iddynt. Maent yn gwneud dewisiadau meddylgar iawn am ba feysydd dysgu sy'n cynnwys eu hoff weithgareddau. Mae'r rhain yn cynnwys chwarae rôl adeiladwr â'i gymysgydd yn yr ardal adeiladu a thrin anifail anafedig ym meddygfa'r milfeddyg.

Mae bron pob un o'r plant yn esbonio'n eglur a gyda brwdfrydedd pa dasgau ymarferol sydd o'r diddordeb mwyaf iddynt. Maent yn ymfalchïo yn eu gallu i esbonio'n fanwl y pethau sydd yn eu cymell i lwyddo wrth ymdrechu'n frwd ar dasgau. Mae hyn yn amlwg pan fyddant yn penderfynu parhau â thasg benodol neu ddechrau gweithgaredd newydd o'u dewis eu hunain. O ganlyniad, mae bron pob un ohonynt yn dechrau mynegi eu barnau a'u hoffterau personol yn hyfedrus. Gwelir hyn yn glir wrth iddynt gynnig mewnbwn ystyrlon i gynnwys y themâu ac wrth iddynt gynllunio arddangosfeydd o'u gwaith gyda'r ymarferwyr.

Mae bron pob un o’r plant yn ymddwyn yn ardderchog ac maent yn gwrtais dros ben. Maent yn barchus iawn wrth ymateb i oedolion a’i gilydd, sy’n cyfrannu at ethos cynhyrchiol a chynhwysol. Mae bron pob un o’r plant yn gwrando’n astud a synhwyrol ar oedolion, er enghraifft pan fyddant yn llinellu i wisgo’u ffedogau a golchi a sychu eu dwylo cyn byrbryd. Ar ôl defnyddio’r toiled a chwarae anniben, mae bron pob un o’r plant yn golchi eu dwylo’n drylwyr heb anogaeth gan ymarferwyr. Mae hyn yn adlewyrchu eu dealltwriaeth gadarn bod glendid yn bwysig ac yn cyfrannu tuag at fywyd iachus.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu diddorol, sy’n bodloni anghenion a diddordebau’r plant yn ddeallus. Maent yn cymell y plant yn llwyddiannus i ddysgu trwy brofiadau ymarferol yn dda iawn. Enghreifftiau o hyn yw’r cyfleoedd i oleuo pabell dywyll wrth wasgu goleuadau â’u bysedd, creu collage i adlewyrchu blodyn haul a phlannu hadau a blodau yn y pridd. O ganlyniad, mae’r cwricwlwm yn ysgogol ac yn adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn bwrpasol.

Mae’r ymarferwyr yn cydweithio’n llwyddiannus i ddarparu gweithgareddau diddorol a bwriadus i’r plant fel edafu rheiliau cotwm i greu patrymau a thrin gwallt doliau yn yr ardal chwarae rôl. Maent yn cynnig cyfleoedd defnyddiol i ddewis llyfrau fel unigolion yn y gornel ddarllen a chwarae offerynnau cerddorol o’u dewis eu hunain i greu synau amrwd. O ganlyniad, mae’r plant yn datblygu’n hyderus fel dysgwyr annibynnol.

Mae’r holl ymarferwyr yn trafod y ffyrdd gorau i herio’r plant mewn cyfarfodydd rheolaidd, ac yn trefnu themâu a gweithgareddau ar sail hyn. Maent yn cynnig cyfleoedd da i’r plant leisio eu syniadau personol i ddatblygu’r gweithgareddau ymhellach trwy ystyried eu holl syniadau cyn dechrau’r thema. Mae eu gwrando deallus ar syniadau’r plant yn ychwanegu’n effeithiol at frwdfrydedd dyddiol y plant yn eu dysgu. Mae’n adeiladu’n gadarnhaol ar eu cymhelliant a’u parodrwydd i ddechrau gweithgareddau’n brydlon iawn, fel ymchwilio i’r newidiadau sy’n digwydd i’r lindys yn y chwiler cyn ymddangos fel pili-pala.

Mae'r lleoliad yn cynllunio’n effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, meddwl a TGCh y plant. Mae gweithgareddau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ym mhob maes dysgu ac yn herio’r plant i gyflawni ar eu gorau’n gyson. Enghreifftiau ymarferol o hyn yw’r cyfleoedd i blant wneud siapiau a marciau’n annibynnol ar fyrddau du â sialc, llythrennau â’u bysedd mewn ewyn eillio ac wrth gyfatebu rhifau â chyfarpar mathemategol. Yn ogystal, maent yn datrys problemau’n dda trwy drefnu a pharatoi barbeciw yn yr awyr agored ac adeiladu fferm gyda nwyddau ailgylchu fel cardbord.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh yn bwrpasol. Mae’r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd da i blant ddefnyddio ystod o offer fel chwaraeydd cryno ddisg, recordwyr lleisiau, llechi a theganau electronig. Mae pob ymarferwr yn herio plant yn ddeallus, gan ddefnyddio meddalwedd addysgol ac apiau yn y Gymraeg yn ystyrlon i ddatblygu eu medrau TGCh cynnar.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n bwrpasol ar ddatblygu medrau corfforol y plant yn yr ardal tu allan ac yn yr adeilad. Mae cyfleoedd cyson iddynt ddringo cyfarpar anturus a chwarae'n fywiog. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu cynllunio'n effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn gwneud y defnydd gorau o'r gofod sydd ar gael yn yr adeilad i herio'r plant i'r eithaf wrth ddatblygu eu medrau corfforol fel defnyddio rhubanau a sgarffiau i chwifio wrth ddawnsio.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn fuddiol iawn. Mae'r ymarferwyr yn fodelau hyderus o'r iaith. Maent yn cynorthwyo'r plant sy'n dechrau dysgu'r iaith yn llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn annog plant i ddefnyddio'r iaith cymaint ag y bo modd trwy weithgareddau diddorol. Maent yn herio'r plant yn gyson yn yr ardaloedd dysgu ac mae eu holi meddylgar a phatrymau iaith cywir yn cefnogi'r plant i ymateb yn synhwyrol. Mae llawer o'r plant yn ymateb â geiriau ac ymadroddion cyfarwydd yn fuan ar ôl cychwyn yn y lleoliad. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o'r plant o'r iaith Gymraeg yn datblygu'n effeithiol.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau, dathliadau a diwylliant Cymru yn llwyddiannus. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen, trafod a chwarae gyda chennin a blasu'r llysiau mewn cawl.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Mae'r profiadau'n cynnwys ymweliadau i'r ysgol leol, y goedwig a chanolfan yr henoed dros adeg y Nadolig. Mae ymwelwyr fel y gwasanaethau brys, anifeiliad egsotic a'r glanweithydd deintyddol yn addysgu'r plant yn effeithiol am rolau pobl yn eu cymuned.

### Addysgu: Rhagorol

Mae'r ymarferwyr yn rhannu disgwyliadau uchel iawn ar gyfer y plant ac maent yn cydweithio'n ddiwyd â'i gilydd fel tîm o addysgwyr meistrolgar. Maent yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac maent yn gwireddu gofynion y cyfnod sylfaen yn ddeallus iawn i effeithio'n dda ar safonau'r plant ac yn rhagorol ar eu lles. Mae'r ymarferwyr yn cyfarch y plant yn gynnes ac yn frwdfrydig wrth iddynt gyrraedd ar gyfer pob sesiwn. Mae'r brwdfrydedd hwn yn parhau trwy gydol y sesiynau ac yn effeithio'n bwrpasol iawn ar gydweithio ac ymddygiad y plant.

Mae'r holl ymarferwyr yn herio'r plant yn drylwyr yn ystod y tasgau ffocws a pharhaus. Mae eu defnydd o'r Gymraeg yn modelu patrymau iaith a geirfa gyfoethog i bob un plentyn. Maent yn ymyrryd yn ddoeth ym mhrofiadau a chwarae'r plant er mwyn eu sbarduno a'u cymell i lwyddo. O ganlyniad, mae'r plant yn dyfalbarhau ar y tasgau mwyaf heriol ac maent yn cyflawni'n ardderchog ynglŷn â'u lles. Mae effaith yr ymarferwyr ar barodrwydd y plant i weithio ar dasgau ymestynnol a chwarae'n digymell â'i gilydd yn rhagorol. Enghreifftiau cadarn o hyn yw'r cydweithio a'r rhyngweithio brwd rhyngddynt wrth i ran fwyaf ohonynt adrodd ar y tywydd a chylch bywyd pili-pala a broga.

Mae'r ymarferwyr yn holi plant yn fedrus i ddatblygu eu medrau meddwl ac yn darparu cyfleoedd ardderchog iddynt gyfathrebu â'i gilydd ac oedolion. Gwneir hyn wrth iddynt drafod a chymharu bywydau pobl ac anifeiliaid mewn gwledydd oer a thwym a disgrifio llysiau wrth iddynt werthu i'w gilydd yn y siop chwarae rôl. O

ganlyniad, mae'r plant yn cael eu hannog yn greadigol iawn i gymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Mae hyn yn cynnwys gadael iddynt weithio'n ddiwyd yn yr adeilad a thu allan wrth ddilyn cyfarwyddiadau clir ac eglur yr ymarferwyr. Mae'r ymarferwyr yn ehangu eu cyfleoedd i brofi'r holl feysydd dysgu yn fwriadus iawn ac i ddewis yn gyfrifol pryd y dylent gydweithio ag eraill ar wahanol fathau o heriau ymestynnol.

Mae'r holl ymarferwyr yn rheoli ymddygiad y plant yn feistrolgar, sensitif a deallus. Maent yn sicrhau bod y plant yn ddiogel wrth weithio tu fewn a thu allan i'r adeilad. Mae'r ffordd y maent yn rhyngweithio â'r plant yn synhwyrol a llewyrchus iawn. Mae eu trafodaethau a'u sgyrsiau byrlymus â nhw yn annog cyfranogiad uchel a mwynhad y plant yn llwyddiannus iawn ym mhob gweithgaredd.

Mae'r gweithdrefnau asesu a'r arferion i gofnodi cyflawniadau plant yn gadarn ac yn bwydo'r cynllunio'n effeithiol i fodloni anghenion unigolion. Mae'r dystiolaeth yn cyfatebu'n gywir â deilliannau plant unigol gan ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen, wrth iddynt ddatblygu yn y lleoliad. Mae'r holl ymarferwyr yn cofnodi'r asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson fel gweithwyr allweddol ar gyfer grwpiau penodol o blant. Maent yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant beth sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r asesiadau dyddiol yn bwrpasol i dargedu'r camau nesaf yn nysgu plant unigol.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn gyson am gyflawniadau eu plant. Mae deialog dyddiol yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r rhieni a gofalwyr, sy'n atgyfnerthu hyn yn llwyddiannus. Ar ddiwedd eu hamser yn y lleoliad, mae gwybodaeth gynhwysfawr am gyflawniad eu plant ar gael i rieni a gofalwyr. Mae'r lleoliad yn darparu llyfrynnau defnyddiol o'r dystiolaeth hon i'r rhieni, sy'n cynnwys lluniau ac anodiadau pwrpasol. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd eu plant dros amser yn effeithiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae'r ymarferwyr yn arwain sesiynau torfol ysgogol yn frwdfrydig i annog y plant i gyfarch ei gilydd, i fyfyrio am deimladau eraill, gweddïo a dweud diolch.

Mae dulliau synhwyrol yr ymarferwyr i gael y plant i ofalu am a chefnogi ei gilydd yn meithrin gwerthoedd fel tegwch a pharch yn effeithiol. Mae hyn yn atgyfnerthu'r defnydd o'r gwerthoedd hyn ym mywyd dyddiol y lleoliad ac yn cyfoethogi lles y plant. Enghraifft effeithiol yw'r system 'helpwr y dydd', sy'n pennu dyletswyddau i unigolion ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i bob plentyn feithrin cyfrifoldeb yn eu tro. O ganlyniad, mae'r plant yn gwrtais iawn wrth osod y bwrdd, ac yn parchu eraill wrth fwyta byrbrydau a gweini llaeth a dŵr o amgylch y byrddau bwyta.

Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r plant yn deall bod ffrwythau a llysiau'n rhan o ddiet synhwyrol. Mae trefniadau llwyddiannus yn bodoli i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae'n cefnogi dysgu'r plant yn synhwyrol, fel hyrwyddo gweithgareddau i gyflymu'r galon yn yr ardal allanol a'r ardal gweithgareddau corfforol yn yr adeilad. O ganlyniad, mae'r trefniadau hyn a'u tebyg yn cyfrannu'n dda at ddatblygiad a lles cyffredinol y plant.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd rheolaidd i blant ailgylchu papur, cardfwrdd, nwyddau plastig a bwyd.  Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn bwrpasol.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd diogel ac mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal da o blant pan fyddant yn cyrraedd a phan fyddant yn cael eu casglu.  Mae'r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn fedrus, sy'n dileu unrhyw aflonyddwch neu ymddygiad afreolus yn llwyddiannus.  O ganlyniad, mae'r plant yn hapus iawn ac yn teimlo'n ddiogel yng nghwmni oedolion.  Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cofnodi anghenion dysgu plant yn effeithiol pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad, ac yn ystod eu cyfnod yno.  Mae'r ymarferwyr yn adolygu cynnydd y plant yn rheolaidd.  Maent yn nodi eu mannau cychwyn yn fanwl trwy ddilyn proffil y cyfnod sylfaen a chanllawiau'r awdurdod lleol.  O ganlyniad, mae'r lleoliad yn targedu plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol pan fydd angen.  Mae'r ymarferwyr yn trafod y plant hyn gyda'r asiantaethau priodol, fel y lleferydd iaith, i ddarparu cymorth cyn gynted ag y bo modd i dargedu anghenion unigolion.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ethos cadarnhaol drwy eu gweithgareddau dyddiol a'u cymhelliant cyson.  Mae'r ymarferwyr yn herio a chefnogi'r plant yn gydwybodol iawn.  Maent yn pwysleisio'n ddyddiol fod angen parchu ei gilydd a bod dewisiadau unigolion yn rhan bwysig o'u datblygiad personol.

Mae'r ymarferwyr yn addysgu'r plant am wahanol wyliau a diwylliannau'r byd yn llwyddiannus.  Er enghraifft, mae'r lleoliad yn dathlu'r Flwyddyn Newydd Dsieiniaidd ac yn darparu cyfleoedd cyson i blant flasu bwydydd o wledydd gwahanol fel pysgod, ffrwythau a llysiau.

Mae'r ymarferwyr yn bodloni anghenion y plant yn synhwyrol a chaiff yr holl blant gyfle cyfartal i ddysgu yn yr ardaloedd gwahanol.  Maent yn rhannu'r ardal fewnol yn ddoeth ac yn darparu gweithgareddau i gyfatebu'n ddeallus ag oed a gallu'r plant.  O ganlyniad, mae'r lleoliad yn gymuned gwbl gynhwysol, sy'n cydnabod unigolrwydd y plant yn bwrpasol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio adnoddau'n effeithiol i fodloni gofynion y cyfnod sylfaen ac anghenion plant.  Caiff ystod eang yr adnoddau diddorol eu defnyddio'n effeithiol mewn gweithgareddau parhaus i gyfoethogi'r dysgu a thasgau ffocws.  Mae'r adnoddau'n hygyrch i bawb, ac yn hyrwyddo synnwyr y plant i gymryd cyfrifoldeb yn effeithiol, fel o gwmpas y gegin fwd a'r trawstiau cydbwyso.  Yn ogystal, mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau TGCh i ddatblygu medrau'r plant yn llwyddiannus.

Mae'r adeilad o ansawdd da, yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn effeithiol.  Mae'r ystafell synhwyrau yn ddatblygiad newydd a defnyddiol i gefnogi a sbarduno chwilfrydedd y plant.  Mae'r ardal allanol yn gyfyng ond yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i dyfu a phlannu, ymholi ac ymchwilio a mentro ar gyfarpar anturus.  Mae'r lleoliad yn gwneud y gorau o'r adeilad a'r ardal allanol ac mae'r adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r rheolwraig a'r arweinydd yn gweithredu gweledigaeth glir ar gyfer gwella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant yn effeithiol. Trwy eu cefnogaeth a'u harweiniad, mae'r addysgu'n cael effaith ragorol ar lles y plant. Mae eu gwaith a'u dulliau arwain yn sicrhau cyfeiriad cadarn i waith cyfredol y lleoliad.

Mae'r arweinydd yn monitro'r ddarpariaeth wythnosol a thymor hir yn drwyadl ac yn sicrhau gweithgareddau difyr a diddorol ar gyfer y plant. Mae hi'n rhannu'r cynlluniau a bwriadau'r gweithgareddau dyddiol gyda'i chydweithwyr yn bwrpasol, er mwyn iddynt ddeall eu rolau yn yr adeilad ac yn yr ardal allanol. O ganlyniad, maent yn gweithio'n ddiwyd iawn fel tîm.

Mae trafodaethau a chyfarfodydd staff rheolaidd yn galluogi ymarferwyr i rannu gwybodaeth am ddatblygiad plant unigol yn effeithiol. Mae'r rheolwrig a'r arweinydd yn creu amgylchedd hynaws lle mae plant ac ymarferwyr yn cael eu gwerthfawrogi, ac felly'n rhoi o'u gorau. Mae'r arweinydd yn hyrwyddo datblygiadau newydd yn effeithiol ac yn cymell ymarferwyr i wneud gwelliannau mewn modd cefnogol. Mae hyn wedi arwain at ddefnyddio strategaethau llwyddiannus i fesur cynnydd y plant yn ieithyddol. O ganlyniad, mae gan yr arweinydd a'r ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer y ddarpariaeth a medrau addysgu rhagorol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant yn llwyddiannus, yn ogystal â datblygu'r ddarpariaeth yn yr awyr agored yn bwrpasol. Maent yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafaredd cynnar y plant.

Mae gwaith ac effaith y pwyllgor rheoli'n addas. Mae'r rheolwraig a'r arweinydd yn adeiladu gwybodaeth ddefnyddiol am arferion y lleoliad yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid ydynt yn rhannu'r wybodaeth hyn yn ddigon effeithiol ag eraill er mwyn dwyn pawb i gyfrif yn bwrpasol. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau monitro yn arwynebol ar adegau ac nid ydynt bob tro'n gwerthuso holl arferion y lleoliad yn ddigon trylwyr.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu y lleoliad yn gadarn ac yn rhan reolaidd o arferion gwella'r lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn monitro safonau'r plant ac ansawdd y ddarpariaeth yn gyson, trwy ddefnyddio systemau'r awdurdod lleol yn effeithiol. Mae'r rheolwraig a'r arweinydd yn cymryd rhan weithredol yn y broses. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r lleoliad ac maent yn adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella yn effeithiol.

Mae'r cydweithredu rhwng yr ymarferwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn llwyddiannus. Mae'r wybodaeth a gesglir yn rheolaidd, yn ogystal ag ymweliadau ac arfarniadau gan yr asiantaethau allanol, yn cyfrannu'n bwrpasol at yr arfer hon. O ganlyniad, mae'r lleoliad wedi gwneud gwelliannau pwrpasol dros amser. Mae hyn yn cynnwys rhoi proffil y cyfnod sylfaen ar waith, ymdrechu'n drylwyr i wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant yn y Gymraeg, a datblygu'r profiadau i blant yn yr ardal allanol.

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu ffurfiol y lleoliad yn datblygu'n addas. Er enghraifft, mae arweinwyr yn ystyried safbwyntiau ymarferwyr, rhieni a gofalwyr, yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin yn ddoeth. Maent yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn briodol i bennu'r blaenoriaethau cywir yn y cynllun datblygu. Mae'r arweinydd a'r rheolwraig yn blaenoriaethu gwariant yn bwrpasol yn unol â'r targedau ar gyfer gwella. Mae'r ymarferwyr yn cytuno ar y blaenoriaethau ac maent yn newid agweddau ar y ddarpariaeth yn dda i ymateb i'r anghenion a nodwyd yn y cynllun datblygu, fel adnewyddu cyfarpar a meddalwedd TGCh. Fodd bynnag, nid yw'r targedau yn y cynllun datblygu bob amser yn deillio'n uniongyrchol o broses hunanarfarnu'r lleoliad. Nid yw'r adroddiad hunanarfarnu bob tro'n cynnwys digon o fanylion ynglŷn â sut a pham mae angen gwella ychydig o feysydd ymhellach.

Mae'r holl ymarferwyr yn awyddus i dderbyn syniadau newydd a awgrymwyd gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol a'r swyddog Mudiad Meithrin. Maent yn gweithredu yn unol â'u cyngor yn rheolaidd. Mae hyn wedi arwain at welliannau cynaledig, fel gwella profiadau i blant yn yr ardaloedd awyr agored trwy ddefnyddio cegin fwd a gosod gweithgareddau amrywiol gyda dŵr, tywod a chyfarpar anturus.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol. Mae'n gweithio'n llwyddiannus gyda'r partneriaid hyn i wella'r ddarpariaeth a safonau a lles plant. Er enghraifft, mae cysylltiadau cadarnhaol iawn yn bodoli gyda'r ysgol leol. Mae'r cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir i gefnogi'r trosglwyddo i fywyd yr ysgol yn gadarn. Mae'r trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol ac asesiadau yn drefnus ac yn fuddiol i'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad. Mae'r arweinydd yn eu hannog i gynnig eu barn eu hunain yn effeithiol ar faterion i wella'r lleoliad, trwy holiaduron, cyfryngau cymdeithasol a thrafodaethau cyson.

Mae cysylltiadau cymunedol y lleoliad yn cefnogi dysgu'r plant yn dda, fel y berthynas agos gyda chanolfan gyfagos yr henoed. Yn ychwanegol, mae'r lleoliad yn cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, sy'n meithrin tynerwch a gofal ymhlith y plant.

Mae'r lleoliad yn gweithio'n bwrpasol gydag asiantaethau allanol, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae hyn yn atgyfnerthu'r perthnasoedd cadarnhaol sy'n bodoli ac mae'r sefydliadau hyn yn rhannu dogfennaeth a pholisïau ac yn hwyluso hyfforddiant a chyngor rheolaethol yn effeithiol.

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio ag ystod eang o bartneriaid eraill, sy'n gwneud cyfraniad pwysig i wella'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys asiantaethau sy'n cefnogi'r lleoliad gyda hyfforddiant cymorth cyntaf, cyrsiau hylendid bwyd, hyfforddiant y cyfnod sylfaen a diogelu plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r rheolwraig a'r arweinydd yn anelu'n gyson tuag at wella pob agwedd ar waith y lleoliad, trwy reoli staff, yr adeilad ac adnoddau yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod

gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr cymwys ac maent yn sicrhau bod hyfforddiant pwrpasol yn effeithio ar eu harferion yn bwrpasol.  O ganlyniad, maent yn dîm o ymarferwyr sefydlog, cadarn a dawnus.

Mae’r arweinydd yn annog yr ymarferwyr i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn llwyddiannus.  O ganlyniad, mae’r lleoliad yn enghraifft dda o gymuned ddysgu gadarnhaol iawn.

Mae’r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn effeithlon ac yn arwain at brofiadau dysgu diddorol ac arferion addysgu ardderchog, sy’n effeithio fwyaf ar les y plant.  Mae’r lleoliad yn rheoli adnoddau’n synhwyrol i gefnogi’r dysgu.  Mae hyn yn cynnwys y defnydd deallus o’r ardal allanol a’r ardal fewnol ar gyfer gweithgareddau corfforol, creadigol, ymholiadau ac ymchwiliadau.

Mae gan y rheolwraig a’r arweinydd ddealltwriaeth glir o'r gyllideb a phwysigrwydd y defnydd a wnânt ohoni i gynnal a gwella’r adnoddau.  Maent yn blaenoriaethu gwariant yn ofalus gan nodi cyfrifoldebau a llinynnau amser synhwyrol.  Maent yn creu gwelliannau cyson trwy drafod ac ariannu cynlluniau i wella’n bwrpasol.  O ganlyniad, mae’r lleoliad yn sicrhau bod y defnydd a wneir o gyllid yn cael effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth a deilliannau’r plant.

Er bod lles y plant yn ardderchog a’r addysgu’n rhagorol, ar y cyfan mae deilliannau’r plant, y ddarpariaeth a’r arweinyddiaeth yn dda.  O ganlyniad, mae’r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |